	£	£	£
MYNWENTYDD AC AMLOSGFEYDD	-247,903	-266,516	-178,213
CASGLU GWASTRAFF	623,903	713,836	984,571
GLANHAU ARALL	1,734,478	1,725,688	2,027,229
GWAREDU GWASTRAFF / AILGYLCHU	9,023,691	9,910,327	11,366,015
CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS	683,053	624,846	672,822
PARCIAU A MANNAU AGORED	2,269,979	2,008,641	1,894,060
ISADRAN GLUDIANT A GWASANAETHAU DEPO	-675,627	-734,093	-238,575
CEFNOGAETH ADRANNOL	744,130	651,230	14,117
CYDGYSYLLTU CLUDIANT A CHLUDIANT YSGOL	5,271,203	5,082,906	1,189,202
YMGYNGHORIAETH BEIRIANYDDOL	-18,422	-105,712	559,396
MEYSYDD PARCIO A PHARCIO DAD-DROSEDDOLEDIG	-512,463	-521,229	-508,280
DIOGELWCH AR Y FFYRDD A HEBRYNGWYR CROESI	204,640	157,568	205,669
CYNLLUNIO TRAFFIG A CHLUDIANT	688,274	517,803	827,686
CYNNAL PRIFFYRDD	4,192,221	4,264,202	5,033,752
CYFANSWM Y GYLLIDEB	23,981,157	24,029,497	23,849,451

Dadansoddiad yn ôl Gwariant ac Incwm

	£	£	£
GWARIANT			
COSTAU CYFLOGEION	12,351,220	11,630,453	10,565,287
COSTAU EIDDO	1,261,760	1,416,315	1,416,315
COSTAU CLUDIANT	9,523,189	9,548,117	9,548,117
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU	1,769,865	1,809,874	1,809,874
TALIADAU TRYDYDD PARTI	17,468,944	18,193,177	18,193,177
GWASANAETHAU CEFNOGI	0	0	3,606,498
CODI CYFALAF	0	0	3,483,173
CYFANSWM GWARIANT	42,374,978	42,597,936	48,622,441
INCWM			
GRANTIAU A CHYFRANIADAU ERAILL	-15,038,246	-15,179,813	-15,179,813
FFŴOEDD, TALIADAU AC INCWM ARALL	-3,355,575	-3,388,626	-3,388,626
CODI AR	0	0	-6,204,551
CYFANSWM INCWM	-18,393,821	-18,568,439	-24,772,990
CYFANSWM Y GYLLIDEB	23,981,157	24,029,497	23,849,451

Rheoli Prif Beryglon

Tybiaeth y Gyllideb	Perygl	Rheolaeth
Chwyddiant a chyfraddau llog	<p>a) Cynhwyswyd 2.5% ar gyfer chwyddiant cyffredinol yn y gyllideb. Ar hyn o bryd mae CPI yn 3.7% ac, yn arbennig, gallai costau ynni / tanwydd fod yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd amdano.</p> <p>b) Bydd symudiad cyfraddau llog yn y dyfodol yn effeithio ar incwm o fuddsoddiad.</p>	Trwy drefniadau arolygu a rheoli cyllideb y Cyngor.
Adolygiad Cyflogau	Ni therfynwyd gwerth hawliadau fel yr oedd pethau ar 1 Ebrill 2007.	
<p>Arbediadau Gwasanaethau:</p> <p>a) Ad-drefnu rheolwyr</p> <p>b) Adolygu contractau a grantiau presennol i gadarnhau 'gwerth ychwanegol' gyda'r trydydd sector</p>	<p>Posibilrwydd oedi a/neu amharu ar wasanaethau</p> <p>Pwysau ar weddill y staff</p> <p>Pwysau i gyflenwi gwasanaethau rheng flaen</p>	<p>Ail-flaenoriaethu gwasanaethau er mwyn lleihau'r effaith</p> <p>Addasu llwythi gwaith</p> <p>Cadarnhau cytundebau lefel gwasanaethu ac ail-flaenoriaethu gwasanaethau</p>
<p>Pwysau ar Wasanaethau:</p> <p>a) Gwnaed darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer rhai gwasanaethau sy'n gorwario yn y flwyddyn gyfredol ond nid pob gwasanaeth (h.y. llai o incwm).</p> <p>b) Gwnaed darpariaeth ar gyfer y newidiadau yn y galw am Ofal Cymdeithasol Oedolion.</p>	<p>Gall y galw am y gwasanaethau hyn ddal i fod yn fwy na'r cyllid sydd ar gael.</p> <p>Gallai parhad dirywiad yn economi'r DU beri colli mwy o incwm (h.y. ffioedd cynllunio a rhenti'r portffolio diwydiannol / y farchnad) i'r Cyngor.</p> <p>Gall y galw am y gwasanaethau hyn ddal i fod yn fwy na'r cyllid sydd ar gael.</p>	<p>Trwy drefniadau arolygu a rheoli cyllideb y Cyngor.</p> <p>O ganlyniad ail-flaenoriaethu i ddefnyddwyr gyda'r angen mwyaf dybryd</p>
Costau codi cyfalaf	Seiliwyd maint y benthyca ar faint ac amseriad ffynonellau cyllid eraill, e.e. derbyniadau cyfalaf a grantiau. Gall y rhain newid.	Trwy ystyriaeth ac argymhelliad y gweithgor aelodau / swyddogion i'r Bwrdd.

Strategaeth Rheoli'r Drysorfa 2010/11 – 2012/13

1. Cefndir

- 1.1. Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli'r Drysorfa mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (Cod TM "CIPFA") a'r Cod Materion Ariannol yn gofyn bod awdurdodau lleol yn pennu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Drysorfa (TMSS) a Dangosyddion Materion Ariannol bob blwyddyn. Mae TMSS hefyd yn ymgorffori'r Strategaeth Fuddsoddi yn ôl gofynion Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru.
- 1.2. Mae CIPFA wedi diffinio Rheoli'r Drysorfa fel:
"rheoli buddsoddiadau a llifau arian y sefydliad, ei drafodion bancio, y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheoli'r peryglon cysylltiedig â'r gweithgareddau hynny'n effeithiol; a cheisio cael perfformiad eithaf yn gyson â'r peryglon."
- 1.3. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau a gweithgaredd ei drysorfa. Nid oes gweithgaredd rheoli'r drysorfa heb berygl. Mae nodi, arolygu a rheoli perygl yn llwyddiannus yn elfen annatod o weithgareddau rheoli'r drysorfa gan gynnwys Peryglon Credyd a Phartion Eraill, Peryglon Hylifedd, Peryglon y Farchnad neu Gyfraddau Llog, Peryglon Ailgyllido a Pheryglon Cyfreithiol a Rheoleiddiol.
- 1.4. Mae'r strategaeth yn ystyried effaith Cyllideb Gyllidol a Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar sefyllfa'r Fantolen, sefyllfa gyfredol ac estynedig y Drysorfa (tudalen 29), y Dangosyddion Materion Ariannol a rhagolwg cyfraddau llog (tudalen 30).
- 1.5. Diben y TMSS hwn yw cymeradwyo:
 - Strategaeth Rheoli'r Drysorfa ar gyfer 2011-12 (Aildrefnu Benthyciadau a Dyledion – Adran 3, Buddsoddiadau – Adran 4)
 - Dangosyddion Materion Ariannol – (DS: Mae'r Terfyn Awdurdodedig yn derfyn statudol)
 - Datganiad MRP – Adran 7
 - Defnyddio Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig – tudalennau 32 a 36
- 1.6. Cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol fabwysiadu Cod CIPFA ar Rheoli'r Drysorfa yn ei gyfarfod ar 19 Mawrth 2002 (DFIS/20/02). Mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r newidiadau i God Ymarfer CIPFA diwygiedig ym mholisiau, trefnau ac arferion ei drysorlys.
- 1.7. Bydd holl weithgaredd y drysorfa'n cydymffurfio â deddfau, canllawiau a safonau cyfrifyddu perthnasol.

2. Sefyllfa'r Fantolen a'r Drysorfa

- 2.1. Yr angen sylfaenol i fenthycia at ddibenion cyfalafol, o'i fesur gyda'r Gofyniad Codi Cyfalaf (CFR), ynghyd â Gweddillion ac Adnoddau wrth Gefn, yw gyrrwyr creiddiol Gweithgaredd Rheoli'r Drysorfa. Yr amcangyfrifon, ar sail y Gyllideb Gyllidol a Rhaglenni Cyfalaf cyfredol, yw:

	31/03/2011 Amcangyfrif £m	31/03/2012 Amcangyfrif £m	31/03/2013 Amcangyfrif £m	31/03/2014 Amcangyfrif £m
Cronfa Gyffredinol CFR	141.5	142.9	140.0	137.6
HRA CFR	15.0	25.9	35.3	33.8
Cyfanswm CFR	156.5	168.8	175.3	171.4
Llai : Proffil Benthycia Presennol a Dyledion Hirdymor Eraill	147.5	142.6	141.7	141.1
Gofyniad Benthycia Allanol Cronnus Mwyaf	9.0	26.2	33.6	30.3
Gweddillion ac Adnoddau wrth Gefn	33.9	36.8	33.6	33.8
Gofyniad Benthycia Clir Cronnus / (Buddsoddiadau)	(24.9)	(10.6)	0	(3.5)

- 2.2. Mae maint dyled a buddsoddiadau'r Cyngor yn gysylltiedig â chydrannau hyn y Fantolen. Mae sefyllfa gyfredol y portffolio'n cael ei chyflwyno ar dudalen 29. Bydd cyflwr y farchnad, disgwyliad cyfraddau llog ac ystyriaethau risg credyd yn dylanwadu ar strategaeth y Cyngor wrth bennu'r gweithgaredd benthycia a buddsoddi gyferbyn â sefyllfa sylfaenol y Fantolen. Bydd y Cyngor yn sicrhau na fydd benthycia allanol clir (h.y. clir o fuddsoddiadau) yn mynd yn fwy na'r CFR heblaw ar gyfer gofynion llif arian byrdymor.

Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf:

- 2.3. Mae'n ofyniad y Cod Materion Ariannol sicrhau bod gwariant cyfalaf yn aros o fewn terfynau cynaliadwy ac, yn arbennig, ystyried yr effaith ar Dreth y Cyngor ac, yn achos HRA, rhenti tai.

Gwariant Cyfalaf	2010/11 Cymeradwy £m	2010/11 Diwygiedig £m	2011/12 Amcangyfrif £m	2012/13 Amcangyfrif £m	2013/14 Amcangyfrif £m
Heblaw HRA Cyffredinol	40.0	35.0	32.5	24.5	14.7
Paneli Haul	0.0	0.0	2.4	0.0	0.0
Is-gyfanswm	40.0	35.0	34.9	24.5	14.7
HRA Cyffredinol	11.0	11.3	12.5	12.5	12.5
Paneli Haul	0.0	0.0	13.5	12.5	0.0
Is-gyfanswm	0.0	0.0	26.0	25.0	12.5
Cyfanswm	51.0	46.3	60.9	49.5	27.2

2.4. Mae disgwyl cyllido gwariant cyfalaf fel a ganlyn:

Codi Cyfalaf	2010/11 Cymeradwy £m	2010/11 Diwygiedig £m	2011/12 Amcangyfrif £m	2012/13 Amcangyfrif £m	2013/14 Amcangyfrif £m
Derbyniadau cyfalaf	7.8	3.5	7.8	3.9	1.3
Grantiau'r Llywodraeth	22.1	20.9	19.2	17.4	10.2
Cronfa Buddsoddi i Arbed LIC – Paneli Haul	0.0		0.1		
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	7.6	7.6	7.6	7.6	7.6
Cyfraniadau cyllidol	3.2	4.3	5.0	4.7	4.7
Cyfraniadau Cyllidol HRA – Paneli Haul			1.5	1.5	
Cyllid wrth Gefn	1.2	1.0	0.0	0.0	0.0
Cyfanswm Cyllido	41.9	37.3	41.2	35.1	23.8
Benthyca cynaliedig	6.2	6.2	4.6	3.4	3.4
Benthyca anghynaliedig	2.9	2.8	0.8	0.0	0.0
Benthyca anghynaliedig – Paneli Haul	0.0		14.3	11.0	
Cyfanswm Cyllid	9.1	9.0	19.7	14.4	3.4
Cyfanswm Cyllido a Chyllid	51.0	46.3	60.9	49.5	27.2

Nodyn: Mae gwariant a chyllido paneli haul yn dibynnu ar gadarnhad

Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf:

2.5. Fel dangosydd fforddiadwyedd dengys y tabl isod effaith penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar Dreth y Cyngor a Rhenti Tai. Caiff yr effaith gynyddrannol ei chyfrifo trwy gymharu cyfanswm gofyniad cyllideb gyllidol y rhaglen gyfalaf gymeradwy gyfredol gyda chyfrifiad cyfatebol o'r gofyniad cyllideb gyllidol yn deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf	2010/11 Cymeradwy £	2011/12 Amcangyfrif £	2012/13 Amcangyfrif £	2013/14 Amcangyfrif £
Cynnydd yn Nhreth y Cyngor Band D	32.47	59.66	75.95	74.04
Cynnydd yng Nghyfartaledd Rhenti Tai Wythnosol	0	0	0	0

Nodyn: Ni fydd y benthyca anghynaliedig arfaethedig ar gyfer paneli haul yn cael unrhyw effaith ar renti tai.

- 2.6. Yr amcangyfrif o daliadau llog yn 2011/12 yw £7.9m ac o dderbyniadau llog yw £0.6m. Mae cymharu costau cyllido â ffrwd gyllid glir y Cyngor yn ddangosydd fforddiadwyedd ac yn tynnu sylw at oblygiadau cyllidol gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy nodi cyfran y gyllideb gyllidol sydd ei hangen i dalu costau benthyca. Seiliwyd y gymhareb ar gostau'n glir o incwm o fuddsoddiad.

Cymhareb o Gostau Cyllido â'r Ffrwd Gyllid Glir	2010/11 Cymeradwy £m	2010/11 Diwygiedig £m	2011/12 Amcangyfrif £m	2012/13 Amcangyfrif £m	2013/14 Amcangyfrif £m
Heblaw HRA	5.6	5.48	5.18	4.89	4.83
HRA	3.44	3.35	3.68	4.96	5.29

3. **Strategaeth Fenthyca ac Aildrefnu**

- 3.1. Caiff gweddill Gwir Ddyled Allanol y Cyngor ar 31 Mawrth 2010 (benthyca crynswth ynghyd â dyledion hirdymor eraill) eu dangos ar dudalen 29. Caiff y Dangosydd Materion Ariannol hwn ei fesur mewn ffordd sy'n galluogi cymharu â'r Terfyn Gweithredol a'r Terfyn Awdurdodedig.
- 3.2. Mae'r **Terfyn Awdurdodedig** yn pennu'r benthyca allanol mwyaf ar sail grynswth (h.y. heb dynnu buddsoddiadau) a dyma'r terfyn statudol a bennwyd dan Adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (y cyfeiriwyd ati yn y ddeddfwriaeth fel y Terfyn Fforddiadwy).

Terfyn Awdurdodedig Dyled Allanol	2010/11 Cymeradwy £m	2010/11 Diwygiedig £m	2011/12 Amcangyfrif £m	2012/13 Amcangyfrif £m	2013/14 Amcangyfrif £m
Benthyca	187.9	202.2	199.4	195.4	194.8
Dyledion hirdymor eraill	16.1	17.1	16.2	15.3	15.0
Cyfanswm	204.0	219.3	215.6	210.7	209.8

- 3.3. Mae'r **Terfyn Gweithredol** yn cysylltu'n uniongyrchol ag amcangyfrifon y Cyngor o'r CFR ac amcangyfrifon o ofynion eraill llif arian. Seiliwyd y dangosydd hwn ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig gan adlewyrchu'r senario mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf ond heb yr hawl ychwanegol sy'n rhan o'r Terfyn Awdurdodedig.

Terfyn Gweithredol Dyled Allanol	2010/11 Cymeradwy £m	2010/11 Diwygiedig £m	2011/12 Amcangyfrif £m	2012/13 Amcangyfrif £m	2013/14 Amcangyfrif £m
Benthyca	177.9	192.2	189.4	185.4	184.8
Dyledion hirdymor eraill	16.1	17.1	16.2	15.3	15.0
Cyfanswm	194.0	209.3	205.6	200.7	199.8

- 3.4. Mae gan y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad awdurdod dirprwyedig, o fewn y terfyn llawn yn unrhyw flwyddyn unigol, i beri symudiad rhwng y terfynau a gytunwyd ar wahân ar fenthyca a dyledion hirdymor eraill. Bydd penderfyniadau ar sail canlyniad gwerthuso dewisiadau ariannol ac ystyriaethau gwerth gorau. Bydd unrhyw symudiad

rhwng y terfynau ar wahân hyn yn cael ei hysbysu i gyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredol.

3.5. Ar y cyd â chyngor ei ymgynghorydd trysorfa, Arlingclose Ltd, bydd y Cyngor yn adolygu'r dewisiadau benthyca canlynol:

- Benthyciadau PWLB
- Benthyca gan awdurdodau lleol eraill
- Benthyca gan sefydliadau fel Banc Buddsoddi Ewrop ac yn uniongyrchol gan Fanciau Masnachol
- Benthyca gan y Marchnadoedd Arian
- Dyraniadau stoc awdurdodau lleol
- Biliau awdurdodau lleol
- Cyllid strwythuredig

3.6. Ar waethaf cyhoeddi Cylchlythyr 147 ar 20^{fed} Hydref yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant sy'n cynyddu cost benthyciadau cyfradd benodol newydd awdurdodau lleol i 1% uwchlaw cost benthyca'r Llywodraeth, mae PWLB yn dal yn ffynhonnell fenthyca ddeniadol, o dderbyn parhad eglurder a rheolaeth ei chyfleusterau. Mathau benthyca PWLB sy'n cael eu hystyried yn briodol ar gyfer amgylchedd cyfraddau llog isel yw:

- Benthyca cyfradd newidiol
- Rhandaliadau Prifswm Cyfartal blwyddyn ganolig (EIP) neu Fenthyciadau Blwydd-dal
- Benthyciadau Aeddfedu Hirdymor, pan fyddant yn fforddiadwy

Bydd gwariant cyfalaf, cyflwr y farchnad a chyfraddau llog yn cael eu harolygu yn ystod y flwyddyn er mwyn lleihau costau benthyca yn ystod y tymor canolig i hwy a chynnal sefydlogrwydd. Ar waethaf cyfraddau benthyca hirdymor isel, mae'r gwahaniaeth rhwng costau dyledion ac enillion o fuddsoddi'n aros yn enbyd ac mae disgwyl i hyn aros yn nodweddiadol yn ystod 2011/12. Mae "costau dwyn ymlaen" cysylltiedig â benthyca tymor canolig a hirdymor mewn cymhariaeth ag elw o fuddsoddi dros dro'n golygu y gallai benthyca cyfradd sefydlog newydd beri costau byrdymor ychwanegol. Eto, yn 2011/12, gall defnyddio adnoddau mewnol yn lle benthyca fod y dull mwyaf cost-ffeithiol o gyllido gwariant cyfalaf.

3.7. Mae disgwyl i gyfraddau newidiol PWLB aros yn isel wrth i Gyfradd y Banc aros yn hanesyddol isel am gyfnod hir. Bydd amlygrwydd i gyfraddau llog newidiol yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Bob tro y bydd y gwahaniaeth rhwng cyfraddau hirdymor a chyfraddau newidiol yn culhau 0.50%, bydd hyn yn ennyn pwynt adolygu ffurfiol a bydd dewisiadau'n cael eu hystyried ar y cyd ag Ymgynghorydd Trysorfa'r Awdurdod a phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar ba un ai i gadw'r un amlygrwydd neu newid o ddyled cyfradd amrywiol i benodol.

3.8. Mae gan y Cyngor £23.8m o fenthyciadau sy'n fenthyciadau LOBO (Lender's Options Borrower's Option) gyda £14.3m ohonynt yn eu cyfnod galw ar hyn o bryd neu yn 2011/12. Os digwydd i'r rhoddwr benthyg ddewis newid cyfradd neu delerau'r benthyciad, bydd y Cyngor yn ystyried y telerau hynny a hefyd ad-dalu'r benthyciad heb gosb. Gall y Cyngor ddefnyddio adnoddau arian parod ar gyfer ad-dalu neu gall

ystyried newid y benthyciad(au) am fenthyciad PWLB. Fodd bynnag, yr ymateb diofyn fydd ad-dalu cynnar heb gosb.

3.9. Y sail resymegol i aildrefnu fyddai un neu fwy o'r canlynol:

- Arbed costau llog gyda'r perygl lleiaf
 - Cydbwysu proffil anwadalwch (h.y. cymhareb dyled cyfradd sefydlog i newidiol) y portffolio dyledion
 - Newid proffil dyled sy'n aeddfedu i leihau unrhyw beryglon cynhenid ailgyllido.
- Fel y daw cyfleoedd, bydd Arlingclose yn eu nodi ac yn eu trafod gyda swyddogion y Cyngor.

3.10. Bydd gweithgaredd benthycia ac aildrefnu'n cael ei hysbysu i'r Bwrdd Gweithredol.

3.11. Mae'r Dangosyddion Materion Ariannol canlynol yn caniatáu i'r Cyngor reoli faint mae'n agored i newidiadau mewn cyfraddau llog. Pennwyd terfyn uchaf amlygrwydd i gyfradd newidiol er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i godiad cyfraddau llog a allai effeithio er gwaeth ar y gyllideb gyllidol. Mae'r terfyn yn caniatáu defnyddio dyled cyfradd newidiol i wrthbwysu amlygiad i newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar fuddsoddiadau.

Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor unrhyw ddyled cyfradd newidiol.

	2010/11 Cymeradwy £m	2010/11 Diwygiedig £m	2011/12 Amcangyfrif £m	2012/13 Amcangyfrif £m	2013/14 Amcangyfrif £m
Terfyn Uchaf Amlygrwydd i Gyfradd Log Sefydlog	7.3	8.1	8.1	8.3	8.6
Terfyn Uchaf Amlygrwydd i Gyfradd Log Newidiol	2.1	2.3	2.3	2.4	2.5

3.12. Bydd y Cyngor hefyd yn cyfyngu ac yn arolygu crynadau mawr o ddyled cyfradd benodol sydd angen eu disodli. Bwriad y terfynau yn y tabl canlynol yw rheoli gormod o amlygrwydd i anwadalwch cyfraddau llog wrth ailgyllido dyled sy'n aeddfedu.

Strwythur aeddfedrwydd benthycia cyfradd sefydlog	Lefel bresennol ar 31/03/10 %	Terfyn Isaf yn 2011/12 %	Terfyn Uchaf yn 2011/12 %
dan 12 mis	2	0	20
12 mis ac o fewn 24 mis	3	0	20
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	1	0	20
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	4	0	80
10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd	16	0	80
20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd	6	0	80
30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd	14	0	80
40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd	54	0	80
50 mlynedd a mwy	0	0	90

4. **Polisi a Strategaeth Fuddsoddi**

- 4.1. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru'n gofyn pennu Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (AIS).
- 4.2. Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw:
 - sicrwydd y cyfalaf a fuddsoddwyd;
 - hylifedd y cyfalaf a fuddsoddwyd;
 - yr elw mwyaf sy'n gymesur â sicrwydd a hylifedd.
- 4.3. Caiff buddsoddiadau eu dosbarthu fel buddsoddiadau 'Penodedig' neu 'Amhenodedig' ar sail y meini prawf yng Nghannllawiau LIC. Mae offerynnau y gall y Cyngor eu defnyddio yn ei strategaeth fuddsoddi ar dudalen 32. Bydd y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad, dan bwerau dirprwyedig, yn gwneud y buddsoddiadau mwyaf priodol yn unol â'r amcanion buddsoddi, gofynion incwm a rheoli risg a Dangosyddion Materion Ariannol. Bydd penderfyniadau ar y portffolio buddsoddiadau craidd yn cael eu hysbysu i'r Bwrdd Gweithredol.
- 4.4. Ymhlith newidiadau i'r strategaeth fuddsoddi yn 2011/12 mae:
 - Cyllid y Farchnad Arian Gwerth Clir Asedau Amrywiol (VNAV) gradd AAA
 - Biliau T
 - Biliau ALI
 - Adneuon tymor yn Sweden
 - Cyfnod hwyaf adneuon newydd yw 2 flynedd
- 4.5. Caiff maint presennol buddsoddiadau'r Cyngor ei gyflwyno ar dudalen 29.
- 4.6. Caiff buddsoddiadau mewnol y Cyngor eu gwneud gan gyfeirio at ragolwg Cyfradd Banc y DU a chyfraddau'r farchnad arian.
- 4.7. Yn unrhyw gyfnod o straen sylweddol ar y marchnadoedd, y sefyllfa ddiodyn yw gwneud buddsoddiadau gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion neu Filiau Trysorlys y DU. (Mae cyfraddau llog DMADF islaw cyfraddau cywerth y farchnad arian, ond mae'r elw'n gyfaddawd derbyniol am warantu bod cyfalaf y Cyngor yn ddiogel.)
- 4.8. Bydd y Cyngor yn dewis gwledydd, a'r sefydliadau ynddynt (gwelwch dudalen 36), ar gyfer y rhestr bartïon ar ôl dadansoddi ac arolygu'r canlynol yn ofalus:
 - Cyfraddiadau Credyd (lleiafswm hirdymor A+ o ran partïon; AA+ o ran gwledydd)
 - Ffeirio Diffyg Credyd (pan gaiff ei ddyfynnu)
 - CMC; Dyled Glir fel Canran o'r CMC
 - Peirianwaith Cynnal Sofran / posibilrwydd cefnogaeth rhiant-sefydliad gyda digon o adnoddau
 - Prisiau Cyfranddaliadau (pan gânt eu dyfynnu)
 - Dangosyddion macro-economaidd
 - Datblygiadau corfforaethol, newyddion ac erthyglau, teimlad y farchnad.
- 4.9. Bydd y Cyngor a'i Ymgynghorwyr Trysorfa, Arlingclose, yn dal i ddadansoddi ac arolygu'r dangosyddion hyn a datblygiadau credyd yn rheolaidd ac yn ymateb yn ôl yr angen i sicrhau sicrwydd y cyfalaf a fuddsoddwyd.

- 4.10. Cadwyd Cyfradd Banc y DU ar 0.5% ers mis Mawrth 2009, ac mae disgwyl iddi aros yn isel drwy gydol 2011/12. Mae cyfraddau byrdymor y farchnad arian yn debygol o aros yn isel iawn am gyfnod hir, fydd yn effeithio'n sylweddol ar incwm o fuddsoddiad.
- 4.11. Er mwyn gwarchod rhag cyfnod maith eto o gyfraddau llog isel a chael sicrwydd incwm, bydd adneuo'n 2 flynedd a buddsoddiadau sicr tymor hwy yn cael eu hystyried yn weithredol o fewn terfynau'r Cyngor ar Fuddsoddiadau Amhenodedig (gwelwch dudalen 36). Bydd y buddsoddiadau tymor hwy'n debygol o gynnwys:
- Adneuo'n Tymor gyda phartïon yn cael eu cyfrif yn A+ (neu gyfartal) o leiaf
 - Bondiau Goruwchgenedlaethol (bondiau a gyhoeddir gan fanciau datblygu amlochrog): Hyd yn oed gyda'r elwau is sy'n debygol o fod ar gael, bydd yr elw ar y bondiau hyn yn rhoi sicrwydd incwm gyferbyn â rhagolwg o gyfraddau llog swyddogol isel.
- 4.12. Mae'r Cyngor wedi gosod terfyn uchaf am brifsymiau a fuddsoddir dros 364 diwrnod, yn ôl gofynion y Cod Materion Ariannol. Mae'r terfyn hwn yn cynnwys amlygrwydd i bosibilrwydd colled all ddigwydd oherwydd bod y Cyngor yn gorfod ceisio ad-dalu'r symiau a fuddsoddiwyd yn gynnar.

Rhif 12	Terfyn uchaf cyfanswm prif-symiau a fuddsoddiwyd dros 364 diwrnod	2010/11 Cymeradwy £m	2010/11 Diwygiedig £m	2011/12 Amcangyfrif £m	2012/13 Amcangyfrif £m	2013/14 Amcangyfrif £m
		15	15	15	15	15

5. Rhagolwg Cyfraddau Llog

- 5.1 Mae rhagolwg cyfraddau llog economaidd Arlingclose Ltd, ymgynghorydd trysorfa'r Cyngor, ar dudalen 30. Bydd y Cyngor yn ailystyried ei strategaeth o bryd i'w gilydd ac, os oes angen, yn ei aildrefnu gyda datblygiad cyflwr y farchnad a disgwyliadau cyfraddau llog y dyfodol.

6. Gofyniad Cyllideb Fantoledig

- 6.1. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â darpariaethau adran 32 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i bennu cyllideb fantoledig.

7. Datganiad MRP 2011/12

- 7.1. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 (OS 2008/588 (W.59)) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer adennill dyledion. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Ganllawiau ar Isafswm Darpariaeth Refeniw ac mae'n ofynnol ar awdurdodau lleol i "ystyried" y fath Ganllawiau dan adran 21(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

- 7.2. Y pedwar dewis MRP sydd ar gael yw:

Dewis 1: Dull Rheoleiddiol

Dewis 2: Dull CFR

Dewis 3: Dull Bywyd Asedau

Dewis 4: Dull Dibrisiad

DS Nid yw hyn yn rhwystro defnyddio dulliau darbodus eraill.

- 7.3. MRP yn 2011/12: Nid yw Dewisiadau 1 a 2 i gael eu defnyddio heblaw ar gyfer gwariant cynaledig. Mae dulliau gwneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant hunangyllidol yn cynnwys Dewisiadau 3 a 4 (y mae modd eu defnyddio hefyd ar gyfer gwariant cynaledig os yw'r Cyngor yn dewis).
- 7.4. Bydd y Datganiad MRP yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2011/12. Os bydd cynnig ar unrhyw adeg i amrywio telerau'r Datganiad MRP gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny.

Bydd y Cyngor yn defnyddio Dewis 2 o ran gwariant cyfalaf cynaliedig a Dewis 3 o ran gwariant cyfalaf heb ei gynnal a bydd MRP o ran prydlesi a ddygwyd i'r Fantolen dan God Ymarfer seiliedig ar yr IFRS yn cyfateb i'r ad-daliad prifswm blyneddol ar y ddyled ohiriedig gysylltiedig.

8. **Arolygu a Hysbysu Alldro'r Drysorfa a Dangosyddion Materion Ariannol**

Mae gweithgaredd y drysorfa a bydd y Dangosyddion Materion Ariannol yn cael eu harolygu drwy'r flwyddyn gan y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad gan gyflwyno adroddiadau fel a ganlyn:

- (a) I'r Bwrdd Gweithredol ym mis Hydref a mis Ionawr gyferbyn â'r strategaeth a gymeradwywyd am y flwyddyn.
- (b) Bydd y Cyngor yn cyflwyno adroddiad alldro ar weithgaredd ei drysorfa erbyn 30^{ain} Medi fan bellaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.
- (c) Y Pwyllgor Archwilio Cyllid a Pherfformiad fydd yn gyfrifol am archwilio gweithgaredd ac arferion rheoli'r drysorfa.

9. **Eitemau Eraill** **Hyfforddiant**

Mae Cod Ymarfer CIPFA yn gofyn bod y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad yn sicrhau bod holl aelodau gyda chyfrifoldebau rheoli'r drysorfa, gan gynnwys archwilio swyddogaeth rheoli'r drysorfa, yn cael hyfforddiant priodol perthnasol i'w hanghenion ac yn deall eu swyddogaethau a chyfrifoldebau'n llawn.

Adolygu a rhoi sylw i anghenion hyfforddi: caiff Gweithdai Cyfnodol ar Rheoli'r Drysorfa eu trefnu, gyda gwahoddiad i'r Aelodau iddynt.

Ymgynghorwyr Buddsoddi

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar fuddsoddiadau llywodraeth leol yn argymhell y dylai'r Strategaeth Fuddsoddi nodi:

- A yw'r awdurdod yn defnyddio contractwyr allanol yn cynnig gwybodaeth, cyngor neu gymorth cysylltiedig â buddsoddiad ac, os felly, sut? Mae'r Cyngor wedi cyflogi Arlingclose Ltd i ddarparu'r gwasanaethau hyn; a
- Sut mae ansawdd unrhyw wasanaeth o'r fath yn cael ei reoli? Yn gyffredinol mae ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan ymgynghorwyr Trysorfa'r Cyngor dan reolaeth tendro cystadleuol pob 3 blynedd. Fodd bynnag, er mwyn cynnal hyblygrwydd darpariaeth gwasanaethau yn ystod cyfnod cyfredol

trawssffurfio'r Cyngor, gohiriwyd yr ailgynnig sydd i fod ar ddiwedd y contract ymgynghori presennol ym mis Mawrth 2011. Mae'r Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad wedi awdurdodi ymestyn y contract gydag Arlingclose am 2 flynedd ychwanegol o fis Ebrill 2011 ymlaen.

RHAGAMCANU'R PORTFFOLIO PRESENNOL

	31 Maw 10 Gwir Bortffolio £m	%	31 Maw 11 Amcangyfrif £m	31 Maw 12 Amcangyfrif £m	31 Maw 13 Amcangyfrif £m	31 Maw 14 Amcangyfrif £m
Benthyca Allanol:						
Cyfradd Sefydlog – PWLB	109.1	72	106.6	102.6	102.6	102.3
Cyfradd Sefydlog – Y Farchnad	23.8	16	23.8	23.8	23.8	23.8
Cyfradd newidiol – PWLB	0	0	0	0	0	0
Cyfradd newidiol – Y Farchnad	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm Benthyca Allanol	132.9		130.4	126.4	126.4	126.1
Rhwymedigaethau hirdymor presennol						
Ymrwymadau IFRS						
Hirdymor:						
- PFI	15.7	10	15.4	15.2	14.8	14.8
- Prydlesi Cyllidol	2.4	2	1.7	1.0	0.5	0.2
Cyfanswm Dyled Allanol Gryswth	151.0	100	147.5	142.7	141.7	141.1
Buddsoddiadau:						
<i>Rheoli mewnol</i>						
- Arian byrdymor (adneuon / arian yn ôl y galw / MMF)	34.0	100	25.0	22.1	20.7	22.0
- Buddsoddiadau hirdymor (<i>aeddfedu dros 12 mis</i>)	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm Buddsoddiadau	34.0	100	25.0	22.1	20.7	22.0
(Sefyllfa Benthyca Clir) / Sefyllfa Buddsoddi Clir	117.0		122.5	120.6	121.0	119.1

Rhagolwg Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose

	Mar-11	Jun-11	Sep-11	Dec-11	Mar-12	Jun-12	Sep-12	Dec-12	Mar-13	Jun-13	Sep-13	Dec-13	Mar-14
Official Bank Rate													
Upside risk	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	0.50	0.50	0.75	1.00	1.25	1.50	2.00	2.50	2.75	2.75	3.00	3.00	3.00
Downside risk	-	-	- 0.25	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50
1-yr LIBID													
Upside risk	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	1.65	1.90	2.15	2.40	2.50	2.50	2.75	3.00	3.25	3.50	3.50	3.50	3.50
Downside risk	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50	- 0.50
5-yr gilt													
Upside risk	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	2.75	3.00	3.25	3.50	3.75	4.00	4.00	4.00	4.00	4.00	4.25	4.25	4.00
Downside risk	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25
10-yr gilt													
Upside risk	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	3.90	4.00	4.10	4.25	4.50	4.75	4.75	4.75	4.75	4.75	5.00	5.00	4.75
Downside risk	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25
20-yr gilt													
Upside risk	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	4.50	4.75	5.00	5.00	5.00	5.00	5.00	5.00	5.00	5.00	5.25	5.25	5.00
Downside risk	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25
50-yr gilt													
Upside risk	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central case	4.25	4.50	4.75	4.75	4.75	4.75	4.50	4.50	4.50	4.50	4.75	4.75	4.50
Downside risk	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25	- 0.25

- Mae adferiad twf yn debygol o fod yn araf ac anwastad.
- Mae'r ymateb cyntaf i'r CSR yn gadarnhaol, ond mae peryglon gweithredu'n aros.
- Mae llwybr cyfraddau sylfaenol yn adlewyrchu breuder yr adferiad a thynhau cyllidol sylweddol fwy'r gyllideb argyfwng. Gyda thwf a chwyddiant sylfaenol yn debygol o aros yn araf, bydd y Banc yn cadw at ei agwedd is am yn hwy at gyfraddau polisi.
- Bydd ansicrwydd o gwmpas dyled sofran Ardal yr Ewro a pherygl haint yn parhau'n yrrwr teimlad y farchnad gredyd fyd-eang.

Tybiaethau sylfaenol:

- Bydd y fframwaith a thargedau a gyhoeddwyd yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR) i leihau'r diffyg cyllidol a dyled y llywodraeth yn cael eu profi; bydd cyrraedd targed benthyca 2010 o £149bn yn dyngedfennol i hyder marchnad stociau'r llywodraeth yn hygredd y cynlluniau cwtogi diffyg.
- Ar waethaf bod Cyflenwad Arian yn wan a gobeithion twf yn dal yn araf, mae MPC wedi tynnu tuag at gynyddu cyfraddau yn y flwyddyn newydd wrth i chwyddiant byd-eang ddal i godi ynghyd â chwyddiant cartrefi.
- Mae Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr yn ystyfnig uwchlaw 3% ac mae'n debygol o gyrraedd brig uwchlaw 4% yn chwarter cyntaf 2011 o ganlyniad i TAW, cyfleustodau a phris tocynnau trên.
- Mae diweithdra'n aros yn agos at ei uchaf ers 16 mlynedd, ar fymryn dros 2.5 miliwn, ac mae disgwyl iddo gynyddu wrth i'r sector cyhoeddus grebachu. Yn y cyfamser, mae cyflogaeth yn tyfu ond bod hyn yn bennaf oherwydd gwaith rhan-amser, gan adael llawer gyda llai o incwm.

- Mae rheolau cyfalaf / hylifedd Basel III ac amserlenni estynedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn gadarnhaol i'r banciau. Mae mantolenni banciau'r DU wrthi'n cael eu had-drefnu a'r disgwyl yw y bydd yn cymryd amser maith i'w orffen. Bydd hyn yn rhag-amod normaleiddio amodau credyd a benthyca'r banciau.
- Mae ad-daliad morgeisi, gostyngiad yng nghredyd clir defnyddwyr a hyder gwan defnyddwyr yn cyd-fynd â threuliant is ac, felly, y rhagolwg twf.
- Fe israddiodd Cronfa Ffederal UDA ei rhagolwg o dwf yn UDA; mae'r Fed yn pryderu digon i arwyddo QE ychwanegol trwy brynu asedau. Mae cynnyrch diwydiannol a thwf yn economi China'n dangos arwyddion arafu. Mae gan y ddau oblygiadau i'r economi byd-eang.

Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig

Buddsoddiadau Penodedig a nodwyd at ddefnydd y Cyngor

Buddsoddiadau Penodedig fydd y rhai sy'n cyrraedd y meini prawf yng Nghlanllawiau LIC, h.y. bod y buddsoddiad

- yn cael ei ddyfynnu mewn sterling
- yn aeddfedu mewn 1 flwyddyn ar y mwyaf
- yn un na ddiffiniwyd fel gwariant cyfalaf dan adran 20(1)(d) yn OS 2003 Rhif 3239 (W.319) (h.y. nid yw'r buddsoddiad yn gyfalaf benthyg neu gyfalaf cyfranddaliadau mewn corff corfforedig).
- bod naill ai un neu'r ddau amod canlynol yn cael eu hateb:
 - yn cael ei wneud gyda llywodraeth y DU neu gydag awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
 - yn cyrraedd y meini prawf credyd "uchel" fel y pennwyd gan yr Awdurdod
- bod y prifswm i'w ad-dalu ar adeg aeddfedu'r un faint â'r swm gwreiddiol a fuddsoddiwyd heblaw buddsoddiadau yn Llywodraeth y DU.

Buddsoddiadau "penodedig" a nodwyd at ddefnydd y Cyngor yw:

- Adneuo'n yng Nghyfleuster Adneuo Cyfrif Rheoli Dyledion y DMO
 - Adneuo'n gydag awdurdodau lleol y DU
 - Adneuo'n gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
 - *Tystysgrifau adneuo'n gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
 - *Bondiau a gyhoeddwyd gan lywodraeth y DU)
 - *Bondiau a gyhoeddwyd gan fanciau datblygu amlochrog
 - Biliau'r Trysorlys (Biliau T)
 - Biliau Awdurdodau Lleol (Biliau ALI)
 - Cyllid y Farchnad Arian Gradd AAA gyda Gwerth Asedau Clir Cyson (CNAV)
 - Cyllid y Farchnad Arian Gradd AAA gyda Gwerth Clir Asedau Amrywiol (VNAV)
 - *Cyllid Arall y Farchnad Arian – h.y. rhoddwyd y buddsoddiad ar restr swyddogol gan awdurdod cymwys yn un o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.
1. * *Bydd buddsoddiadau yn yr offerynnau hyn yn dilyn cyngor ymgynghorydd trysorfa'r Cyngor.*

O ran partïon gyda statws credyd, y meini prawf gofynnol fydd y graddfeydd byrdymor a hirdymor cywerth isaf a roddwyd gan Fitch, Moody's a S&P (lle rhoddwyd).

Lleiafswm hirdymor: A+ (Fitch); A1 (Moody's); A+ (S&P)

Lleiafswm byrdymor: F1 (Fitch); P-1 (Moody's); A-1 (S&P)

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried gwybodaeth am ddatblygiadau corfforaethol partïon buddsodd a theimlad y farchnad tuag atynt.

Bydd buddsoddiadau penodedig newydd yn cael eu gwneud o fewn y terfynau canlynol:

Offeryn	Gwlad / Preswylfan	Parti	Terfynau Uchaf y Parti
Adneuon Tymor	Y DU	DMADF, DMO	Dim terfyn
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU	Awdurdodau Lleol eraill y DU	Dim terfyn
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU*	Partïon gyda statws A+ Hirdymor a F1 Byrdymor (neu gyfartal) o leiaf	£10m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Heblaw'r DU*	Partïon gyda statws A+ Hirdymor a F1 Byrdymor (neu gyfartal) o leiaf mewn gwledydd dethol gyda Graddfa Sofran AA+ fan leiaf	£10m
Stociau'r Llywodraeth	Y DU	DMO	Dim terfyn
Biliau T	Y DU	DMO	Dim terfyn
Biliau ALI	Y DU	Awdurdodau Lleol eraill y DU	Dim terfyn
Bondiau a gyhoeddwyd gan fanciau datblygu amlochrog		(Er enghraifft, Banc Buddsoddi Ewrop / Cyngor Ewrop, Inter-American Development Bank)	£10m
Cyllid y Farchnad Arian gyda statws AAA	Yn y DU / Iwerddon / Lwcsembwrg	CNAV MMF VNAV MMF (Ile mae mwy na 12 mis o hanes cyson o Werth Asedau £1 Clir)	£10m
MMF a CIS eraill	Yn y DU / Iwerddon / Lwcsembwrg	Cyllid cronedig sydd o fewn diffiniad Cynllun Buddsoddi Cyfunol yn ôl OS 2004 Rhif 1010 (W.107) ac OS 2007 Rhif 1051 (W.108)	£10m

Banciau heblaw yn y DU – bydd y rhain yn cael eu cyfyngu i amlygrwydd mwyaf o 25% ymhob gwlad.

MMF – Hyd y bo'n ymarferol, bydd buddsoddiadau mewn Cyllid y Farchnad Arian yn cael eu gwasgaru rhwng dwy gronfa neu fwy.

Terfynau Unigol – bydd buddsoddiadau gyda phartïon unigol yn cael eu cyfyngu i £10m

Terfynau Grŵp – O ran sefydliadau mewn grŵp bancio, y terfyn fydd 1.5 gwaith terfyn unigol un o'r banciau yn y grŵp hwnnw.

Offeryn	Gwlad / Preswylfan	Parti	Terfyn Uchaf y Parti	Terfyn Uchaf y Grŵp
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU	Santander UK Plc (Grŵp Banco Santander)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU	Bank of Scotland (Grŵp Lloyds Banking)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU	Lloyds TSB (Grŵp Lloyds Banking)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU	Barclays Bank Plc	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU	Clydesdale Bank (Grŵp National Australia Bank)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU	HSBC Bank Plc	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU	Nationwide Building Society	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU	NatWest (Grŵp RBS)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU	Royal Bank of Scotland (Grŵp RBS)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y DU	Standard Chartered Bank	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Awstralia	Australia and NZ Banking Group	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Awstralia	Commonwealth Bank of Australia	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Awstralia	National Australia Bank Ltd (National Australia Bank Group)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Awstralia	Westpac Banking Corp	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Canada	Bank of Montreal	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Canada	Bank of Nova Scotia	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Canada	Canadian Imperial Bank of Commerce	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Canada	Royal Bank of Canada	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Canada	Toronto-Dominion Bank	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Y Ffindir	Nordea Bank Finland	£10m	£15m
Adneuon Tymor	Ffrainc	BNP Paribas	£10m	£15m

/ Cyfrifon Galw				
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Ffrainc	Credit Agricole CIB (Credit Agricole Group)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Ffrainc	Credit Agricole SA (Credit Agricole Group)	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Ffrainc	Société Générale	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Yr Almaen	Deutsche Bank AG	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Yr Iseldiroedd	ING Bank NV	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Yr Iseldiroedd	Rabobank	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Sweden	Svenska Handelsbanken	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	Yr Swisdir	Credit Suisse	£10m	£15m
Adneuon Tymor / Cyfrifon Galw	UDA	JP Morgan	£10m	£15m

Buddsoddiadau Amhenodedig a bennwyd at ddefnydd y Cyngor

Wedi ystyried y sail resymegol a'r perygl cysylltiedig â Buddsoddiadau Amhenodedig, pennwyd y canlynol at ddefnydd y Cyngor:

	Defnydd mewnlol	Aeddfedu hwyaf	% fwyaf o'r portffolio	Gwariant cyfalaf?
<ul style="list-style-type: none"> ▪ Adneuoŷn gyda banciau a chymdeithasau adeiladu ▪ CD gyda banciau a chymdeithasau adeiladu 	<p>✓</p> <p>✓</p>	5 mlynedd	50% gyda'i gilydd	Na
<ul style="list-style-type: none"> ▪ Stociau'r llywodraeth ▪ Bondiau a gyhoeddwyd gan fanciau datblygu amlochrog ▪ Bondiau a gyhoeddwyd gan sefydliadau ariannol gyda gwarant llywodraeth y DU ▪ Bondiau sterling gan lywodraethau sofran heblaw'r DU 	<p>✓ (yn ôl cyngor ymgynghorydd y drysorfa)</p>	10 mlynedd	50% gyda'i gilydd	Na
Cyllid y Farchnad Arian a Chynlluniau Buddsoddi Cyfunol, gyda neu heb statws credyd	<p>✓ (yn ôl cyngor ymgynghorydd y drysorfa)</p>	Nid oes dyddiad aeddfedu penodol i'r cronfeydd hyn	50%	Na
Bondiau gyda gwarant y llywodraeth ac offerynnau dyled a gyhoeddwyd gan gorfforaethau corfforedig	<p>✓</p>	10 mlynedd	£0M	Ie
Bondiau heb warant y llywodraeth ac offerynnau dyled a gyhoeddwyd gan gorfforaethau corfforedig	<p>✓</p>	10 mlynedd	£0M	Ie
Cyllid cronedig	<p>✓ (yn ôl cyngor ymgynghorydd y drysorfa)</p>	10 mlynedd	£0M	Ie

1. Wrth bennu cyfnod aeddfedu buddsoddiad, dylid ystyried bod y buddsoddiad yn dechrau ar ddyddiad ymrwymo'r buddsoddiad yn hytrach na dyddiad talu'r cyllid i'r parti.